# Prif Wirfoddolwr Ardal Eryri A Mon

## Cyflwyniad i Dîm ScoutsCymru

Mae'n gyfnod cyffrous i fod yn rhan o'r Sgowtiaid ar hyn o bryd, wrth i ni ddatblygu a bwrw ymlaen â'n strategaeth Sgiliau am Oes, i baratoi gwell dyfodol a darparu sgiliau am oes i bobl ifanc sydd eisiau bod yn Sgowtiaid. Mae'r swydd Prif Wirfoddolwr Ardal yn benodiad Pencadlys y DU pwysig o fewn Tîm ScoutsCymru, yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n ysbrydoli i un o'r Ardaloedd yng Nghymru. Mae'r swydd yn ddifyr, yn gyffrous ac yn gyfle i fod yn rhan o'r Sgowtiaid yng Nghymru, hyd yn oed os nad ydych erioed wedi bod yn Sgowt o'r blaen.


Rhian Moore, Chief Volunteer, ScoutsCymru

Fel Prif Wirfoddolwr Ardal, byddwch yn arwain y gwaith o wneud yn siŵr bod Sgowtio lleol yn wych. Byddwch yn arwain y gwaith o weithredu ein strategaeth gyda'ch tîm o Brif Wirfoddolwyr Dosbarth, gan eu hysgogi a'u cefnogi i arwain y Grwpiau Sgowtiaid yn eu Dosbarthau yn llwyddiannus. Mae Tîm ScoutsCymru yn eang ac yn cynnwys ein cydweithwyr staff, y Prif Wirfoddolwr, y Prif Wirfoddolwyr Rhanbarthol a'n harweinwyr hyfforddiant rhanbarthol.

Byddwch yn ymuno â thîm o wirfoddolwyr dawnus a brwdfrydig sydd i gyd yn angerddol am ddod â Sgowtio gwych i bob unigolyn ifanc sy'n dymuno cymryd rhan ac ymuno â'r antur.

Mae swydd y Prif Wirfoddolwr Ardal yn heriol ac yn cynnig boddhad mawr. Rydym yn chwilio am bobl a all arwain ac ysbrydoli eu tîm trwy fod yn hyfforddwr gwych, yn gyfaill beirniadol ac yn ysgogwr. Mae hon yn swydd uwch reolwr o fewn y Sgowtiaid ac yn dod gyda chyfrifoldeb. Mae'n cynnig cyfle unigryw i gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl ifanc yn eich Ardal trwy adeiladu, meithrin ac arwain tîm i wireddu ein cydweledigaeth. Mae'r swydd hon yn cynnig y cyfle i fod yn flaenllaw yn ein llwyddiant parhaus o fewn ScoutsCymru.

# Cynnwys

Prif Wirfoddolwr Ardal Eryri A Mon .... 1
Cyflwyniad i Dîm ScoutsCymru .... 1
Cynnwys .... 2
Sut i ymgeisio neu enwebu rhywun .... 3
Y swydd – Prif Wirfoddolwr Ardal .... 4
Penodir gan: .... 4
Atebol i: .... 4
Cyfrifol am: .... 4
Prif gysylltiadau: .... 4
Tasgau allweddol: .... 4
Gofynion y penodiad: .... 5
Telerau'r penodiad: .... 5
ScoutsCymru .... 6
Y swydd wag bresennol .... 6
Meysydd Sgiliau Craidd .... 7
Manyleb person .... 9
Gwybodaeth a phrofiad: .... 9
Sgiliau a galluoedd: .... 9
Rhinweddau personol: .... 9
Cyfnod cynefino i Brif Wirfoddolwyr Ardal newydd .... 11

# Sut i ymgeisio neu enwebu rhywun

## Y broses

Diolch am eich diddordeb mewn gwirfoddoli fel Prif Wirfoddolwr Ardal o fewn Tîm Arweinyddiaeth ScoutsCymru. Ceir rhagor o wybodaeth am y swydd ar y tudalennau canlynol, yn ogystal â diben cyffredinol y tîm a'r hyn a gynigir i chi fel gwirfoddolwr sy'n ymuno â ni.

Gallwch ymgeisio am y swydd eich hun gan ddefnyddio'r ffurflen gais neu enwebu rhywun arall gan ddefnyddio'r ffurflen enwebu. Nid oes unrhyw ymrwymiad ar bobl a enwebir i ymgeisio oni bai eu bod yn dymuno. Gallwch wneud cais neu enwebu ar-lein.

Ffurfiwyd grŵp chwilio i oruchwylio'r broses hon a bydd yn adolygu'r holl geisiadau ac enwebiadau i wneud penderfyniadau ynghylch pwy i'w gwahodd i ddod i gam dethol y broses hon.

## Dyddiadau allweddol

Naw yn y bore 3ydd Mehefinnos ddydd yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Dyddiadau cyfweld: Mehefin

## Rhagor o wybodaeth

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â:

**Kevin Field** – Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol Dros Dro (Gogledd Cymru) – ScoutsCymru
LVClwyd@scoutscymru.org.uk

Neu

**Rachel Merriott** - Pennaeth Cymorth Sgowtio - ScoutsCymru
E-bost: Rachel@scoutscymru.org.uk

# Y swydd – Prif Wirfoddolwr Ardal

**Amlinelliad:**

Mae'r Prif Wirfoddolwr Ardal yn swydd arweinyddiaeth wirfoddol allweddol ym maes Sgowtio â chyfrifoldeb am ddarparu rheolaeth a chymorth rhagorol i wirfoddolwyr yn y Dosbarthau sy'n cyfansoddi'r Ardal.

Y prif bwyslais yw sicrhau bod Sgowtio yn agored i bawb ac y gall unrhyw un ymuno â'r antur, beth bynnag fo'i ffydd, ethnigrwydd neu gefndir cymdeithasol, gan ein bod yn credu bod gan Sgowtio y gallu i newid bywydau.

Gallwch wneud hyn drwy arwain y tîm Brif Wirfoddolwyr Dosbarth, a gwirfoddolwyr eraill yn yr Ardal, a thrwy weithio gyda'r Tîm Cymorth Sgowtio (staff cyflogedig) i dyfu Sgowtio, a thrwy wneud yn siŵr bod pob grŵp yn rhedeg rhaglen weithgareddau ddiogel, gytbwys o ansawdd uchel sy'n heriol, yn berthnasol ac yn llawn boddhad.

**Penodir gan:** Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol ScoutsCymru, trwy broses grŵp chwilio sy'n atebol i Bwyllgor Cynghori ar Benodiadau Pencadlys y DU

**Atebol i:** Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol ScoutsCymru

**Cyfrifol am:** Prif Wirfoddolwyr Dosbarth, Dirprwy Brif Wirfoddolwyr, Rheolwr Hyfforddiant Ardal, a phob penodiad Ardal arall, ond disgwylir bod rheoli llinell ar gyfer swyddi eraill yn cael ei ddirprwyo i Ddirprwyon/Cynorthwywyr.

**Prif gysylltiadau:** Dirprwy Brif Wirfoddolwyr Ardal, Prif Wirfoddolwyr Ardal Cynorthwyol, aelodau o'r Bwrdd Ymddiriedolwyr a'r is-bwyllgorau, Prif Wirfoddolwyr Dosbarth, Arweinydd Tîm Hyfforddiant yr Ardal, Prif Wirfoddolwr ScoutsCymru, aelodau o'r gymuned leol, ysgolion a sefydliadau ieuenctid eraill yn yr Ardal.

**Tasgau allweddol:**

- Sicrhau y gall pob Nyth Squirrels, Llwyth Sgowtiaid Beaver, Cnud Sgowtiaid Cub, Mintai Sgowtiaid, Uned Sgowtiaid Explorer a Rhwydwaith Sgowtiaid yn yr Ardal ddarparu rhaglen o ansawdd uchel sy'n heriol, yn berthnasol ac yn cynnig boddhad i bob unigolyn ifanc.
- Darparu rheolaeth linell ragweithiol, gan gynnwys hyfforddi, mentora a chyfarwyddyd i Brif Wirfoddolwyr Dosbarth yn ogystal ag oedolion eraill sy'n gwirfoddoli yn yr Ardal sy'n atebol i chi yn uniongyrchol, gan gynnwys pennu amcanion ar gyfer eu gwaith, cynnal cyfarfodydd un i un rheolaidd ac adolygiadau.
- Datblygu a chynnal synnwyr o dîm Ardal trwy gynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda'r Prif Wirfoddolwyr Dosbarth, Dirprwy Brif Wirfoddolwr Ardal a Prif Wirfoddolwyr Ardal Cynorthwyol, Arweinydd Tîm Hyfforddiant yr Ardal a gwirfoddolwyr priodol eraill yn eich tîm Ardal i gydweithredu a darparu cymorth cymheiriaid.
- Arwain diwylliant diogel, agored a thryloyw o ran cadw pobl ifanc ac oedolion yn ddiogel drwy ein Cerdyn Melyn a pholisïau allweddol.
- Sicrhau bod Prif Wirfoddolwyr Dosbarth newydd yn cael eu recriwtio a'u penodi'n brydlon pan fo'n ofynnol a sicrhau bod trefniadau dros dro yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw swyddi gwag.
- Ynghyd â'r Prif Wirfoddolwyr Dosbarth, cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer yr Ardal a llunio cynllun i gyflawni'r rhain i gyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol ScoutsCymru.
- Sicrhau bod problemau yn yr Ardal yn cael eu datrys fel bod diwylliant gwirfoddoli effeithiol yn cael ei annog, a bod Prif Wirfoddolwyr Dosbarth ac

Arweinwyr Tîm Sgowtiaid Grŵp yn teimlo wedi'u cefnogi i ymdrin â phroblemau heriol, gan gynnwys cwynion, yn brydlon.

- Sicrhau bod gan yr Ardal dîm digonol o oedolion a gefnogir a phriodol sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chydag eraill i ddiwallu anghenion Sgowtio'r ardal.
- Sicrhau bod problemau yn yr Ardal yn cael eu datrys fel y darperir Sgowtio rhagorol i bobl ifanc yn yr Ardal.
- Chwarae rhan weithredol yn nhîm rhanbarthol ScoutsCymru trwy fynychu hyd at dri chyfarfod y flwyddyn ar gyfer Prif Wirfoddolwyr Ardal, wedi'u harwain gan y Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol a chyfarfodydd Tîm ScoutsCymru ddwywaith y flwyddyn ar gyfer pob Prif Wirfoddolwr Ardal i gyfrannu at ddatblygiad Sgowtio yng Nghymru yn rhan o dîm ScoutsCymru.

**Gofynion y penodiad:**

- Mae'n ofynnol i Brif Wirfoddolwyr Ardal ddilysu'r dysgu ar gyfer ein cynllun hyfforddi rheolwyr a gwirfoddolwyr cefnogol, y cydnabyddir ei gwblhau trwy ennill Bathodyn Pren ar gyfer y swydd Prif Wirfoddolwr Ardal. Fel swydd arweinyddiaeth allweddol o fewn y Sgowtiaid, rydym yn disgwyl i Brif Wirfoddolwyr Ardal newydd osod esiampl gref a chwblhau'r hyfforddiant gofynnol hwn yn ystod eu blwyddyn gyntaf.
- Mae'n rhaid i Brif Wirfoddolwyr Ardal fod yn gymwys ar gyfer statws ymddiriedolwr elusennol (fel aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr).
- Disgwylir y byddwch yn cyflawni gweithgarwch wedi'i reoleiddio wrth wirfoddoli ar gyfer y swydd hon.
- Disgwylir hefyd i Brif Wirfoddolwyr Ardal gyfrannu'n weithredol fel aelod o'u tîm rhanbarthol a Thîm ScoutsCymru. Mae hyn yn cynnwys mynychu rhwng tri a chwech o gyfarfodydd y tîm rhanbarthol a dau gyfarfod ScoutsCymru y flwyddyn.

**Telerau'r penodiad:**

Mae hyd cychwynnol y penodiad yn ôl disgresiwn y Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol, trwy drafodaeth gyda'r sawl a benodir, ac mae fel rheol am gyfnod o un i dair blynedd i gychwyn cyn adolygiad penodiad ffurfiol. Gall Prif Wirfoddolwyr Ardal gwblhau dim mwy na chyfanswm o ddeng mlynedd yn y swydd. Mae adnewyddu a pharhau'r penodiad yn ôl disgresiwn y Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol a gall adolygiadau penodiad gael eu cynnal ar unrhyw adeg ar gais deiliad y swydd a/neu'r Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol.

**Sylwer:** Gellir dirprwyo llawer o'r tasgau y mae'r Prif Wirfoddolwr Ardal yn gyfrifol amdanynt i eraill yn yr Ardal, gan gynnwys Deputy Prif Wirfoddolwr Ardal, os oes un wedi'i benodi. Er y bydd yr unigolyn newydd a benodir yn etifeddu tîm presennol o wirfoddolwyr mewn penodiadau Ardal allweddol, disgwylir y bydd y Prif Wirfoddolwr Ardal newydd yn adolygu ac yn ad-drefnu amcanion a swyddogaethau'r tîm fel y maent yn ei ystyried sy'n briodol.

# ScoutsCymru

Mae gan ScoutsCymru 12 Ardal sy'n cynnwys Cymru gyfan.

18,800 yw cyfanswm yr aelodau ar hyn o bryd, syn cynnwys:

- 52 Nyth Squirrels (4 i 6 oed)
- 246 Llwyth Sgowtiaid Beaver (6 i 8 oed)
- 266 Cnud Sgowtiaid Cub (8 i 10½ oed)
- 244 Mintai Sgowtiaid (10½ i 14 oed)
- 95 Uned Sgowtiaid Explorer (14 i 18 oed)
- 22 Rhwydwaith (18 i 25 oed)

# Yr Ardal

Ceir pedwar dosbarth yn Eryri a Môn:

- Bae Colwyn ac Abergele
- Conwy
- Gwynedd
- Ynys Môn


Ar draws y pedwar dosbarth, ceir 16 o grwpiau â chyfanswm o 1,193 o aelodau. Rhennir y rhain yn:

Cyfanswm yr aelodau ifanc: 832
Cyfanswm y swyddogaethau oedolion: 361

# Y swydd wag bresennol

Rydym yn chwilio am Brif Wirfoddolwr Ardal ar hyn o bryd. Swydd reoli yw hon, ac rydym angen rhywun sy'n gallu darparu arweinyddiaeth ysgogiad a chyfarwyddyd i'n gwirfoddolwyr eraill sy'n oedolion.

Mae strwythur rheoli'r Sgowtiaid fel a ganlyn:




Mae'r Prif Wirfoddolwyr Ardal yn cefnogi gwirfoddolwyr a rheolwyr eraill, a elwir yn Brif Wirfoddolwyr Dosbarth, sydd yn eu tro yn cefnogi rheolwyr Grwpiau Sgowtiaid lleol. Mae oedolion ar bob lefel angen cefnogaeth i sicrhau eu bod wedi'u hysgogi a'u hysbrydoli ac yn canolbwyntio ar ddarparu Sgowtio o'r radd flaenaf. Mae rheolwr da yn diolch i wirfoddolwyr eraill am eu gwaith caled ac yn helpu i wneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n hapus ac wedi'u cefnogi, wythnos ar ôl wythnos.

Bydd y Prif Wirfoddolwr Ardal hefyd yn darparu cyfeiriad ar gyfer yr Ardal ac yn helpu eraill i weld y darlun Sgowtio ehangach trwy arweinyddiaeth gadarn.

Rydym o'r farn y dylai pawb mewn swyddi rheoli ym maes Sgowtio fabwysiadu dull sy'n cyfuno sgiliau arweinyddiaeth a rheoli.

Yn ScoutsCymru, ceir sawl tasg a gweithgaredd allweddol a gyflawnir gan y Prif Wirfoddolwr Ardal a thîm

arweinyddiaeth gwirfoddolwyr ardal a allai fod yn rhan o'r swydd a bod o fewn cwmpas y Prif Wirfoddolwr Ardal newydd i'w haddasu a'u dirprwyo'n briodol. Cyflawnir rhai o'r rhan gan y Prif Wirfoddolwr Ardal presennol a dirprwyir rhai i'r Dirprwy Brif Wirfoddolwyr ardal neu'r Prif Wirfoddolwyr Ardal Cynorthwyol. Y pwynt pwysig yma yw nad ydym yn disgwyl i'r Prif Wirfoddolwr Ardal fod yn uwch-arwr a gwneud hyn i gyd neu neilltuo pob awr o'r dydd i'r swydd.

# Meysydd Sgiliau Craidd

**Rydym wedi nodi chwe maes sgiliau craidd sy'n gwneud rheolwr Sgowtio da:**




Translations for above graphic:

Core Skills – Sgiliau Craidd

Providing direction – Darparu cyfeiriad

Working with people – Gweithio gyda phobl

Achieving results – Cyflawni canlyniadau

Enabling change – Galluogi newid

Using resources – Defnyddio adnoddau

Managing time and personal skills – Rheoli amser a sgiliau personol

### 1. Darparu cyfeiriad

Bydd Prif Wirfoddolwr Ardal da yn creu gweledigaeth ar gyfer Sgowtio yn ei Ardal ac yn darparu arweinyddiaeth eglur i wireddu'r weledigaeth honno.

### 2. Gweithio gyda phobl

Mae'n hanfodol y gall Prif Wirfoddolwr Ardal greu ysbryd da ymhlith y tîm o wirfoddolwyr eraill y mae'n gweithio â nhw, ac y gall ffurfio perthynas waith effeithiol yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac egwyddorion sylfaenol Sgowtio:

- uniondeb
- parch
- gofal
- ffydd
- cydweithrediad

### 3. Cyflawni canlyniadau

Mae Prif Wirfoddolwyr Ardal da yn sicrhau bod nodau yn cael eu cyflawni, bod cynlluniau yn cael eu cwblhau'n llawn, a bod perthynas dda yn cael ei chynnal o fewn a rhwng Dosbarthau Sgowtio. Mae creu cysylltiadau o fewn y gymuned leol hefyd yn agwedd bwysig ar ddatblygiad.

### 4. Galluogi newid

Mae'n bwysig i Brif Wirfoddolwyr Ardal annog gwirfoddolwyr i feddwl am ffyrdd creadigol o wella Sgowtio ar draws yr Ardal. Dylent ddarparu'r gefnogaeth wedyn i gyflawni newidiadau priodol.

### 5. Defnyddio adnoddau

Bydd Prif Wirfoddolwr Ardal da yn sicrhau bod gwybodaeth ac adnoddau ar gael, gan helpu gwirfoddolwyr ar draws yr Ardal i barhau i ddarparu cyfleoedd Sgowtio gwych i bobl ifanc.

### 6. Rheoli amser a sgiliau personol

Dylai Comisiynydd Prif Wirfoddolwr Ardal da ddefnyddio ei amser yn effeithiol a bod yn barod i barhau i ddysgu a gwella ei sgiliau.

# Manyleb person

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth a phrofiad:** | |
| Gallu i arwain, rheoli ac ysgogi pobl mewn amgylchedd gwirfoddol. | Hanfodol |
| Deall yr heriau o weithio yn y sector gwirfoddol | Dymunol |
| Profiad o weithio gyda phobl ifanc a/neu waith cymunedau gyda grwpiau oedolion | Dymunol |
| Profiad o wirfoddoli mewn swydd rheolwr/cefnogwr ym maes Sgowtio (e.e. Arweinydd Sgowtiaid Grŵp, Comisiynydd Dosbarth neu swyddogaeth Dosbarth/Sir arall) | Dymunol |
| **Sgiliau a galluoedd:** | |
| Gallu rhagorol i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig gan gynnwys y gallu i siarad a chyflwyno'n gyhoeddus mewn ffordd eglur, rugl ac ysgogiadol | Hanfodol |
| Gallu i ddarparu cyngor a chyfarwyddyd yn effeithiol i eraill | Hanfodol |
| Gallu i ddarparu arweinyddiaeth strategol sy'n ysbrydoli i'r Sir | Hanfodol |
| Gallu i gyfrannu at ddatblygiad strategaethau a nodi camau ymarferol i gyflawni amcanion strategol | Hanfodol |
| Gallu i gadeirio cyfarfodydd yn effeithiol | Hanfodol |
| Yn gallu adeiladu, cynnal a hwyluso perthynas waith effeithiol gydag amrywiaeth eang o bobl | Hanfodol |
| Gallu i alluogi eraill i nodi problemau, egluro amcanion, datblygu amcanion cyraeddadwy a chaffael y sgiliau a'r hyder angenrheidiol i weithio fel tîm effeithiol | Hanfodol |
| Gallu i gytuno ar gyfaddawdau | Hanfodol |
| Yn cynllunio, rheoli a monitro ei dasgau a'i amser ei hun | Hanfodol |
| Yn gallu adeiladu a gweithredu cynlluniau hirdymor sy'n gwella ac yn ehangu'r Sgowtio a gynigir i bobl ifanc, a nodi unrhyw hyfforddiant, adnoddau ac anghenion eraill sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith hwn | Hanfodol |
| Gallu i ddefnyddio technoleg, yn enwedig e-bost symudol, i gyflawni amrywiaeth o dasgau (hyderus yn defnyddio Microsoft Word, Excel a PowerPoint). | Hanfodol |
| **Rhinweddau personol:** | |
| Dealltwriaeth o anghenion gwirfoddolwyr sy'n oedolion | Hanfodol |

| | |
|---|---|
| Dull hyblyg | Hanfodol |
| Hunan-ysgogiadol | Hanfodol |
| Gallu gweithio yn rhan o dîm a hybu gwaith tîm da | Hanfodol |
| Dyfeisgar, egnïol a brwdfrydig am y swydd | Hanfodol |
| Yn derbyn hanfodion mudiad y Sgowtiaid | Hanfodol |

# Cyfnod cynefino i Brif Wirfoddolwyr Ardal newydd

Cynllun cynefino a ddarperir gan y Tîm Cymorth Sgowtio naill ai wyneb yn wyneb neu o bell, ar y cyd â'r Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol, yn rhan o gyfnod cynefino strwythuredig ar gyfer y swydd. Bydd y rhyngweithiadau hyn hefyd yn cynnwys cyfle i ddatblygu cynllun gweithredu yn y swydd â chymorth pwrpasol gan staff yn nhîm ScoutsCymru i weithredu camau i ddatblygu a thyfu Sgowtio yn yr Ardal.



## Diwrnodau Cynefino Gwirfoddolwyr yn y Pencadlys

Penodir Prif Wirfoddolwyr Ardal gan Bencadlys y DU i arwain Sgowtio yn eu Sir neilltuedig, ac felly maent yn rhan allweddol o'r Tîm, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr staff a gyflogir gan yr elusen genedlaethol, sy'n gyfrifol am reoli amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir yn genedlaethol ar gyfer Sgowtio lleol. Gwahoddir Prif Wirfoddolwyr Ardal newydd i gyfnod cynefino deuddydd  ym mhencadlys cenedlaethol y Sgowtiaid yn Gilwell Park, Llundain lle bydd cyfle i chi gyfarfod â chydweithwyr staff allweddol a rhoi wynebau i enwau ac archwilio'r cymorth sydd ar gael i chi yn rhan o dîm ehangach y Pencadlys.

## Y Tîm Cymorth Sgowtio

Mae'r Tîm Cymorth Sgowtio yn rhan o dîm staff ScoutsCymru, â staff wedi'u lleoli yn y maes sy'n cwmpasu pedwar rhanbarth Cymru. Mae'r tîm Cymorth Sgowtio yn cynorthwyo gwirfoddolwyr i agor adrannau, unedau a grwpiau newydd, yn darparu dulliau i helpu grwpiau presennol dyfu, yn darparu cymorth a hyfforddiant ar recriwtio oedolion, ac yn cefnogi cyfnodau cynefino rheolwyr gwirfoddol newydd ym maes Sgowtio.

Mae'r Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol yn gyswllt allweddol rhwng y Tîm Cymorth Sgowtio a Sgowtio lleol. Trwy weithio agos a chyfathrebu effeithiol, bydd y Prif Wirfoddolwr Rhanbarthol yn datblygu cynlluniau gyda chi â'r Prif Wirfoddolwyr Ardal eraill yn y tîm i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau i gyflawni nodau Sgowtio ar gyfer y rhanbarth, fel y cytunwyd gyda Phrif Wirfoddolwr ScoutsCymru.